# Our Bright Future:
# Papur Dysgu 1



## SGILIAU A CHYFLOGADWYEDD: DYSGU ODDI WRTH OUR BRIGHT FUTURE

BETH OEDD YN GWEITHIO, BETH OEDD Y LLWYDDIANNAU, BETH OEDD Y GWERSI A DDYSGWYD

## Cyflwyniad

**Partneriaeth uchelgeisiol ac arloesol dan arweiniad yr Ymddiriedolaethau Natur oedd Our Bright Future. Fe'i hariannwyd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol – noddwr gweithgareddau cymunedol mwyaf y Deyrnas Unedig. Dyma raglen o 31 o brosiectau a gynhaliwyd rhwng 2016 a 2021, a oedd yn dod â'r sector amgylcheddol a'r sector ieuenctid at ei gilydd. Nod gyffredin y prosiectau, a oedd yn amrywio o brosiectau lleol i rai cenedlaethol, oedd grymuso pobl ifanc (rhwng 11 a 24 oed) i arwain newidiadau amgylcheddol yn y dyfodol.**

Dyma rai o weithgareddau'r prosiectau: cynnwys pobl ifanc mewn cadwraeth amgylcheddol ymarferol; ennyn eu diddordeb mewn hyfforddiant galwedigaethol a phrofiad gwaith; eu cefnogi i ddatblygu eu hymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol eu hunain yng nghyswllt materion amgylcheddol; a'u helpu i gychwyn eu mentrau cynaliadwy eu hunain.

Mae'r dystiolaeth yn y papurau hyn wedi cael ei chasglu fel rhan o broses werthuso Our Bright Future. Lluniwyd y papurau gan ddau gwmni gwerthuso – Economic Research Service Ltd (ERS) a Collingwood Environmental Planning (CEP) – er mwyn gallu rhannu'r hyn a ddysgwyd drwy'r rhaglen a chael dylanwad ar ddarpariaeth yn y dyfodol.

Mae'r papur hwn yn seiliedig ar dystiolaeth werthuso a gasglwyd gan brosiectau a chyfranogwyr Our Bright Future rhwng 2016 a 2020. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau chwarterol a blynyddol y prosiectau; grwpiau ffocws, e-arolygon a chyfweliadau gyda'r cyfranogwyr; a chyfweliadau gyda rheolwyr prosiect. Mae'n canolbwyntio ar:

i) **beth oedd yn llwyddiannus wrth helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau, ennill cymwysterau a gwella eu cyflogadwyedd,** er mwyn eu gwneud yn fwy parod am waith a'u helpu i gymryd camau tuag at ddod o hyd i swydd; a

ii) **y prif bethau a gyflawnwyd gan brosiectau Our Bright Future** a'r rhaglenni a oedd yn ymwneud â sgiliau a chyflogadwyed



Y nod wrth rannu'r canfyddiadau hyn yw helpu prosiectau'r dyfodol i ddefnyddio'r amgylchedd naturiol i ddatblygu sgiliau pobl ifanc, gan wella eu cyfleoedd mewn bywyd a'u gallu i wneud gwahaniaeth i'r amgylchedd.
Mae'r model rhesymeg isod yn crynhoi'r mathau o ganlyniadau, o safbwynt sgiliau a chyflogadwyedd, y mae pobl ifanc fu'n cymryd rhan yn Our Bright Future wedi'u cael, a'r mathau o weithgareddau oedd yn hwb i gyflawni'r canlyniadau hynny.

### Gweithgareddau'r prosiectau a chyfleoedd

**Hygyrch a chefnogol**
- Cymorth hyblyg a hirdymor
- Cael gwared ar y rhwystrau
- Amrywiaeth eang o opsiynau
- Cymorth mentora
- Staff profiadol
- Cymorth gan gyfoedion

**Dysgu amgylcheddol**
- Bod yn yr awyr agored
- Gweithgareddau amgylcheddol ymarferol

**Datblygiad personol**
- Help i roi hwb i hyder
- Cwrdd â phobl o'r un anian
- Cyfleoedd i arwain
- Gweithgareddau grŵp

**Cymorth i gael swydd**
- Cymorth penodol ar gyfer gyrfaoedd
- Rhwydweithiau sy'n cynnwys pobl proffesiynol a chyfoedion
- Gwaith am dâl

### Canlyniadau

**Cyrhaeddiad**
- Cyflawniadau gweladwy
- Sgiliau gwell ar gyfer llunio CV a chymryd rhan mewn cyfweliad
- Enghreifftiau o brofiad gwaith
- Cymwysterau ffurfiol gan gyrff wedi'u hachredu

**Sgiliau personol, cymdeithasol, emosiynol a seiliedig ar waith**
- Gwell hunanhyder
- Hyder i gwrdd â phobl newydd a gweithio gyda nhw
- Gwaith tîm a chyfathrebu
- Balchder a chyflawniadau

**Gwybodaeth a sgiliau**
- Mwy o wybodaeth
- Gwybodaeth mewn meysydd newydd
- Sgiliau trosglwyddadwy
- Sgiliau ymarferol a phroffesiynol

### Effeithiau

**Effeithiau tymor byr**
- Gwell siawns o gael swyddi
- Pobl ifanc yn barod am waith
- Mwy o ddyheadau a gobaith ar gyfer y dyfodol

**Effeithiau tymor hir**
- Pobl ifanc yn chwilio am fwy o gyfleoedd i ddatblygu
- Pobl ifanc yn ymgeisio am gyfleoedd hyfforddiant ac addysg bellach/uwch ac yn llwyddo i'w cael
- Pobl ifanc yn chwilio am swyddogaethau rhan-amser/llawn-amser a gwirfoddol ac yn llwyddo i'w cael
- Pobl ifanc yn cychwyn eu busnes eu hunain

## Prif gyflawniadau Our Bright Future o safbwynt sgiliau a chyflogadwyedd

Roedd gan brosiectau Our Bright Future wahanol dargedau ar gyfer sgiliau a chyflogadwyedd. Roedd ambell un yn cynnig rhaglenni ffurfiol wedi'u hachredu, tra bod eraill yn rhoi pwyslais ar ddatblygu sgiliau a chyflogadwyedd mewn ffyrdd anffurfiol drwy ddefnyddio amrywiaeth o weithgareddau prosiect.

**Prif gyflawniadau'r rhaglen o ran sgiliau a chyflogadwyedd:**

- Cafodd pobl ifanc gyfle i ddatblygu amrywiaeth eang o sgiliau, gan gynnwys: sgiliau amgylcheddol ymarferol, sgiliau seiliedig ar waith a sgiliau cymdeithasol ac emosiynol;
- Roedd datblygu eu sgiliau yn golygu gwell canlyniadau i bobl ifanc, er enghraifft: manteision cymdeithasol; gwell iechyd a lles; a mwy o ymwybyddiaeth o'r amgylchedd a gwerthfawrogiad ohono.
- Gwelwyd cynnydd yn hunanhyder y bobl ifanc ac yn eu hyder mewn sefyllfaoedd cymdeithasol a phroffesiynol;
- Roedd pobl ifanc yn fwy parod am waith, gyda gwell cyflogadwyedd;
- Roedd gan bobl ifanc fwy o uchelgais a gobaith ar gyfer y dyfodol;
- Roedd pobl ifanc yn llwyddo i symud ymlaen i fyd gwaith neu addysg.



## Canlyniadau i bobl ifanc o ran sgiliau allweddol

**Mae pobl ifanc wedi llwyddo i gael pob math o sgiliau drwy'r gweithgareddau amrywiol a hyblyg oedd yn cael eu cynnig**

· Datblygwyd sgiliau mewn sawl maes, mewn sawl ffordd wahanol. Fel arfer, roedd hyn yn cynnwys sgiliau amgylcheddol ymarferol, sgiliau seiliedig ar waith (fel cadw amser, ymddygiad proffesiynol ac ati), a sgiliau cymdeithasol ac emosiynol.

**Mae pobl ifanc wedi llwyddo i gael amrywiaeth eang o gymwysterau, gan gynnwys dyfarniadau a gydnabyddir yn genedlaethol ar gyfer sgiliau ymarferol, emosiynol cymdeithasol a phersonol a chymdeithasol a sgiliau seiliedig ar waith**

· Dyma enghreifftiau o'r cymwysterau a enillwyd: Dyfarniadau uned AQA; prentisiaethau lefel un a lefel dau e.e. cadwraeth amgylcheddol; cymwysterau ASDAN; dyfarniadau Agored Cymru; dyfarniadau City & Guilds a Dyfarniadau John Muir.
· Roedd ennill dyfarniadau'n gwneud i bobl ifanc deimlo'u bod wedi cyflawni rhywbeth.
· Yn ôl rheolwyr prosiect, heb Our Bright Future, fyddai pobl ifanc ddim wedi cael cymwysterau oherwydd prinder cyfleoedd ar lefel mor bersonol a/neu i'w cyflawni o fewn cyfnodau tebyg.

**Mae pobl ifanc wedi meithrin sgiliau arwain ac wedi eu defnyddio i weithio tuag at gyflawni newid amgylcheddol**

Yn ôl y bobl ifanc a gyfwelwyd/fu'n cymryd rhan yn yr arolwg, roedd Our Bright Future wedi gwneud iddynt deimlo:
· Mwy o gymhelliant i wneud gwahaniaeth er budd yr amgylchedd; ac, yn bwysicach na dim
· Bod ganddynt fwy o hyder a gallu (diolch i sgiliau, gwybodaeth, cysylltiadau ac ati) i weithredu ar y cymhelliant hwnnw a mynd ati'n frwd i arwain newid amgylcheddol.

## Canlyniadau allweddol i bobl ifanc o ran gwaith a swyddi

**Mae pobl ifanc wedi datblygu hyder, sgiliau a gwybodaeth ac wedi mynd ymlaen i gael amrywiaeth eang o swyddi a lleoliadau**

- Yn ôl 84% o'r cyn gyfranogwyr a oedd yn rhan o'r arolwg, roedd Our Bright Future wedi rhoi mwy o obaith iddynt ar gyfer y dyfodol.
- Roedd ychydig o dan un rhan o dair o'r bobl ifanc a oedd yn rhan o'r arolwg yn dweud bod cysylltiad rhwng cymryd rhan yn Our Bright Future a'u llwyddiant wrth gael swydd neu fynd ymlaen i astudio ymhellach.
- Roedd y profiadau a gafwyd yn golygu bod gan y bobl ifanc "rywbeth i siarad amdano" mewn cyfweliadau a cheisiadau am swyddi, a hynny wrth wneud cais am gyfleoedd yn y sector(au) amgylcheddol neu sectorau eraill.

> Mae datblygu sgiliau – ymarferol a 'meddal' – yn digwydd yn naturiol yn y rhan fwyaf o'n gweithgareddau. Ochr yn ochr â'r sgiliau ymarferol hyn, mae pobl ifanc wedi dysgu am waith tîm, gwytnwch, cynllunio a hunanreolaeth.
>
> **RHEOLWR PROSIECT**

> Mae cael dyfarniad swyddogol ar y diwedd yn werthfawr i bobl ifanc. (Yn benodol), pobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol ac sy'n gweithio i gael tystysgrif – maen nhw'n llawn cyffro am y peth, ac mae'n rhoi hwb i'w hyder a'u hunan-barch.
>
> **RHEOLWR PROSIECT**

> O'n i'n arfer meddwl fod pŵer allan o gyrraedd pobl fel fi. Ond ar ôl gorffen, roedd fy meddylfryd wedi newid yn llwyr. Fe alla i adeiladu'r dyfodol rydw i'n dymuno ei gael a chael y dyfodol hwnnw. Mae 'na le i bobl fel fi yn y meysydd yma. Rhywun gyda fy sgiliau i ac o fy nghefndir i. Ac mae gen i rywbeth i'w roi hefyd.
>
> **CYFRANOGWR YN UN O'R PROSIECTAU**



**Mae pobl ifanc wedi llwyddo i gael swyddi a lleoliadau gwaith, yn ogystal â chyfleoedd addysg a hunangyflogaeth, ar ôl cymryd rhan yn Our Bright Future**

- Symud ymlaen i fyd addysg, a'r manteision o fod yn fwy parod ar gyfer gwaith, swyddi a phrofiad gwaith, oedd y pethau mwyaf cyffredin a nodwyd ar gyfer pobl ifanc oed gwaith h.y. cyfranogwyr 16-18 oed ac uwch.
- Roedd ychydig o dan un rhan o dair o'r bobl ifanc a oedd yn rhan o'r arolwg yn dweud bod Our Bright Future wedi cyfrannu at y broses o gael gwaith.

**Mae cyfleoedd i gyfranogwyr ar draws y portffolio wedi bod yn amrywiol ac wedi cynnwys, er enghraifft:**

- Interniaethau a phrentisiaethau gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Natural England, Ymddiriedolaethau Natur a Groundwork, mewn swyddi fel parcmyn ac ecolegwyr;
- Mwy o gymhelliant i gael swyddi yn y sector amgylcheddol/mwy o awydd i weithio y tu allan ym myd natur;
- Cyflogaeth neu hunangyflogaeth yn y sector amgylcheddol;
- Swyddogaethau gwirfoddol, a swyddi cyflogedig a hunangyflogedig mewn sectorau eraill – o ffasiwn i beirianneg;
- Astudiaethau pellach mewn amrywiol feysydd, gan gynnwys cyrsiau amgylcheddol;
- Gweithredu cymdeithasol ac ymgyrchu;
- Ymgymryd â swyddogaethau arwain a gwneud penderfyniadau allanol.

Nid ydym yn gwybod beth yw effaith hyn oll ar hynt a helynt pobl ifanc yn y tymor hwy, gan gofio nad yw dros hanner y cyfranogwyr wedi cyrraedd oed gwaith eto – ond mae gan lawer ohonynt gynlluniau i ddilyn yr un llwybrau â'r uchod, neu lwybrau tebyg iddynt, yn y dyfodol.

> Roeddwn i wedi gwneud cais am interniaeth gyda'r RSPB, ac wedi llwyddo. Flwyddyn yn ddiweddarach fe ges i swydd lawn amser gyda Natural England. Fyddwn i ddim wedi cael yr hyder na'r cymhelliant i wneud cais am yr un ohonynt heb yr egni o'r newydd ar gyfer newid amgylcheddol a roddodd UpRising i mi.
>
> **CYFRANOGWR YN UN O'R PROSIECTAU**

**Mae pobl ifanc wedi dod yn fwy ymwybodol o opsiynau ar gyfer gyrfaoedd amgylcheddol ac wedi cael eu hysbrydoli i geisio cael swydd yn y sector**

- Mae pobl ifanc yn teimlo bod cael gwybodaeth am y llwybrau gyrfa sydd ar gael yn y sector/sectorau amgylcheddol wedi bod yn werthfawr.
- Yn ôl 40% o'r alumni oedd yn rhan o'r arolwg, roedd Our Bright Future wedi dylanwadu arnynt i ddilyn gyrfa yn y sector amgylcheddol – yn enwedig y rheini a oedd yn cymryd rhan mewn prentisiaethau/cyrsiau dysgu ffurfiol.
- Mae pobl ifanc wedi cymhwyso'r gwerthoedd, y sgiliau a'r diddordebau amgylcheddol y maent wedi'u meithrin drwy Our Bright Future i swyddi ac astudiaethau mor amrywiol â ffasiwn a pheirianneg.

**Mae pobl ifanc wedi newid eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol ar ôl cymryd rhan yn Our Bright Future, er bod COVID-19 wedi eu hatal rhag mynd ar drywydd y cynlluniau hyn mewn sawl achos**

- Yn ôl pobl ifanc, roedd cymryd rhan yn y rhaglen wedi dylanwadu ar eu cynlluniau a'u bwriadau ar gyfer y dyfodol.
- Mae COVID-19 wedi golygu, i rai pobl ifanc, fod cyfleoedd a oedd wedi cael eu sicrhau'n barod – fel lleoliadau gwaith a gwirfoddol – wedi cael eu canslo am y tro neu wedi mynd i'r gwellt.

> Mae wedi agor fy llygaid led y pen i'r posibiliadau a'r cyfleoedd sydd ar gael yn y sectorau amgylcheddol/cynaliadwy, ac mae wedi gwneud i mi weld bod lle i mi ac i'm sgiliau.
>
> **CYFRANOGWR YN UN O'R PROSIECTAU**

> Mae Our Bright Future wedi bod yn brofiad amhrisiadwy i mi, gan roi llawer o gymwysterau i mi yn ogystal â phrofiad. Roedd hyn yn help aruthrol wrth gael lleoliad ar gyfer y dyfodol...bydd y lleoliad hwnnw'n agoriad llygad eto. Mae'r profiad cyntaf yn anodd iawn i'w gael, ond mae un peth wedi arwain at y llall. Dwi 'di cael fy lleoliad, ac fe ddylai hynny ag y drws at gyfleoedd eraill.

## Astudiaeth Achos: Gethin, un o gyfranogwyr Ein Glannau Gwyllt (Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru)

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Roedd Gethin newydd orffen ei flwyddyn gyntaf yn y maes cadwraeth amgylcheddol pan glywodd am hyfforddeiaeth Ein Glannau Gwyllt. Roedd yn ei chael yn anodd dod o hyd i gyfleoedd i gael profiad gwaith ymarferol yn y maes, ac yn gobeithio y byddai'r hyfforddeiaeth yn rhoi cyfle iddo weld sut beth oedd gweithio i'r Ymddiriedolaeth Natur – ac yn rhoi hwb i'w gyflogadwyedd.

Cafodd fodd i fyw gydag elfennau ymarferol yr hyfforddeiaeth. Roedd yn teimlo ei fod wedi dysgu llawer iawn drwy siarad â swyddogion yr Ymddiriedolaethau Natur. Mae'n teimlo bod yr hyfforddeiaeth wedi priodi'n dda â'r wybodaeth ddamcaniaethol yn yr astudiaethau academaidd, gan roi sgiliau ymarferol iddo a blas ar amgylcheddau morol. Roedd Gethin wrth ei fodd yn dysgu yn yr awyr agored hefyd, ac yn teimlo bod hyn yn ei annog ef a chyfranogwyr eraill i ofyn cwestiynau – a pharhau i sgwrsio am yr amgylchedd pan oedden nhw'n cael egwyl.

Drwy'r hyfforddeiaeth, llwyddodd Gethin i gael nifer o gymwysterau AQA, gan gynnwys tystysgrif RAC mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith ar gyfer Ymarferwyr Awyr Agored. Mae'n pwysleisio fod hyn yn eithaf drud fel arfer ac y bydd yn fuddiol iawn iddo mewn swyddi yn y sector awyr agored yn y dyfodol.

"Fe wnes i ddysgu llawer iawn ar y cwrs yn ystod fy mlwyddyn gyntaf yn y brifysgol, ond roedd y bythefnos gyda'r Ymddiriedolaeth Natur yn werthfawr tu hwnt wrth ddysgu'r pethau na allai astudiaethau academaidd eu dysgu i mi; cefais gyfle i ddeall a gweld â'm llygaid fy hun sut mae ymarfer cadwraethol yn gweithio"

Mae Gethin yn teimlo mai'r canlyniad pwysicaf sydd wedi deillio o'r profiad oedd hyder ynddo ef ei hun, a'r cyfle i ddefnyddio'r sgiliau yr oedd wedi'u dysgu yn y brifysgol. Ers hynny, mae Gethin wedi defnyddio'r sgiliau a'r hyder a gafodd drwy'r hyfforddeiaeth yn ei astudiaethau prifysgol ac yn ei rôl wirfoddol gyda'r Ymddiriedolaeth Natur.

Mae Gethin yn teimlo bod Ein Glannau Gwyllt wedi bod yn bwysig wrth roi'r hyder iddo ymgeisio am leoliad gwaith fel ecolegydd cynorthwyol. Mae hefyd yn teimlo ei fod wedi ei helpu i gael y lleoliad. Roedd yr hyfforddeiaeth yn bodloni llawer o'r meini prawf oedd yn ddymunol ar gyfer y rôl (e.e. sgiliau ID a gweithio yn yr awyr agored) ac wedi ei helpu i gyfleu ei angerdd yn y cyfweliad. Yn ei farn ef, heb yr hyfforddeiaeth, byddai wedi bod yn anoddach o lawer iddo sicrhau lleoliad ar gyfer 'blwyddyn mewn diwydiant' y brifysgol, ac ni fyddai o reidrwydd wedi dilyn llwybr ecoleg ymarferol.



## Astudiaeth Achos: Brooke, fu'n cymryd rhan mewn prosiect Dylunio Amgylcheddol Creative Pathways (Impact Arts)

Roedd Brooke wedi gadael ysgol ac yn aros i gyflwyno cais ar gyfer addysg bellach pan glywodd am y rhaglenni oedd yn cael eu cynnig gan Impact Arts, wedi'u hariannu gan Our Bright Future.

Roedd Brooke yn teimlo'r pwysau i gychwyn gweithio ond roedd yn betrus a ddim yn teimlo'n barod. Felly rhoddodd Creative Pathways gyfle da iddo ddatblygu ei sgiliau yn y celfyddydau creadigol a dysgu am faterion gwyrdd – gan roi cymorth iddo chwilio am waith, llunio CV a gweithio ar ei sgiliau cyfweliad hefyd. Pan oedd yn cymryd rhan, cafodd Brooke gyfle i gynllunio llyfr comics a ffilm fer, gan arwain yr ochr gwisgoedd. Drwy gymryd rhan, a chyfarfod a siarad â phobl newydd, tyfodd hyder a hunanhyder Brooke.

Mae'n priodoli'r canlyniadau hyn i naws gefnogol y prosiect, anogaeth y staff a chefnogaeth cyfranogwyr eraill. Roedd yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i weithio gyda phobl ifanc a oedd yn rhannu'r un diddordebau gan fod pawb yn gallu cefnogi ei gilydd.

Cafodd Brooke help gan y prosiect i lunio CV a chais a oedd yn help iddo sicrhau lle yn y coleg yn astudio ffasiwn a thecstilau. Gobaith Brooke yw dal ati i gynnwys gwerthoedd amgylcheddol y prosiect mewn gwaith dylunio yn y dyfodol.

> Yr wythnos gyntaf, roedd gen i ormod o ofn siarad â neb. Roedd hynny'n lletchwith iawn achos roedd hi'n dawel a minnau'n swil. Ar ôl i mi setlo, ac ar ôl i'r tiwtoriaid roi hwb bach i ni siarad â phobl, dechreuais gael mwy o hyder a gwneud ffrindiau newydd.

> Mae bod yng nghwmni unigolion o'r un anian â fi wedi gwneud i mi deimlo'n fwy gobeithiol am ddyfodol y blaned, wedi gadael i mi gredu ynof fi fy hun, ac wedi newid fy ngyrfa yn y dyfodol yn llwyr (er gwell!).

## Astudiaeth Achos: Rachel, un o gyfranogwyr BEE You (Blackburne House)



Roedd Rachel yn rhan o brosiect BEE You, lle cafodd gyfle i ddysgu sgiliau cadw gwenyn.  Er nad oedd Rachel erioed wedi cadw gwenyn o'r blaen, erbyn hyn mae hi'n diwtor cymwys sy'n dysgu'r sgìl i eraill ac mae hi wrthi'n datblygu ei busnes ei hun fel gwenynwr llawn amser.
Roedd BEE You yn dechrau gyda sesiynau dosbarth a theori bob wythnos, cyn symud ymlaen at weithgareddau mwy ymarferol.
Roedd hyn yn cynnwys deall sut oedd cychod gwenyn a gwenynfeydd yn cael eu creu a sut oedd gofalu amdanynt. Roedd y prosiect hefyd yn gallu addasu i'r ffordd yr oedd Rachel yn hoffi dysgu, drwy wneud y sesiynau'n llai.

Yn ôl Rachel, roedd y cyfle i ryngweithio gyda phobl o'r un anian â hi a rhoi cynnig ar elfennau ymarferol cadw gwenyn yn benodol yn bwysig iddi hi.
Llwyddodd i aros yn y prosiect yn y tymor hwy ac ennill cymwysterau (Dyfarniad Lefel 3 – Addysg a Hyfforddiant a Thystysgrif Lefel 3 – Asesu Cyflawniadau Galwedigaethol).
Drwy gymryd rhan yn BEE You, llwyddodd Rachel i gael gwaith am dâl o fewn y prosiect fel tiwtor gwenyna. Mae Rachel hefyd wedi sefydlu Cwmni Budd Cymunedol, ac mae'n gobeithio annog mwy o bobl i gadw gwenyn.

## Beth sydd wedi gwneud gwahaniaeth wrth helpu pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau

Wrth edrych ar Our Bright Future yn ei gyfanrwydd, nid oedd un ffordd gyffredin o ddatblygu sgiliau ac nid oedd cyfranogwyr yn dilyn un llwybr penodol.  Yn hytrach na chanolbwyntio ar ddatblygu'r model "iawn", mae addasu a theilwra cymorth i anghenion pobl ifanc wedi bod yn greiddiol i sicrhau canlyniadau positif ac ychwanegu gwerth at eu profiadau. Mae llawer o'r elfennau i gefnogi datblygiad sgiliau hefyd wedi bod yn hollbwysig wrth gynnwys a chadw pobl ifanc fel rhan o'r rhaglen, fel y nodir ym Mhapur Dysgu 4: Beth ddysgodd Our Bright Future am ennyn diddordeb pobl ifanc yn yr amgylchedd.

### Dyma rai elfennau o'r prosiectau oedd yn cefnogi datblygiad sgiliau:

- Darpariaeth hyblyg a phwrpasol, wedi'i theilwra i anghenion a dyheadau'r bobl ifanc
- Cymhareb uchel ar gyfer staff a chyfranogwyr, er mwyn gwneud yn siŵr bod unigolion ag anghenion cymhleth neu sy'n brin o hyder yn cael cymorth digonol
- I rai pobl ifanc, cymorth am gyfnod hwy (e.e. darpariaeth benagored) er mwyn rhoi amser i wireddu canlyniadau
- Gwneud cymaint ag y bo modd i gael gwared ar rwystrau sy'n atal unigolion rhag cymryd rhan e.e. drwy grantiau a dileu rhwystrau logisteg (yn enwedig ar gyfer pobl ifanc ddifreintiedig na fyddai'n gallu cymryd rhan fel arall)
- Ystod eang o opsiynau i apelio at amrywiaeth o ddiddordebau a lefelau sgiliau sylfaenolels
- Staff profiadol sy'n meddu ar y sgiliau priodol i ennyn diddordeb pobl ifanc, eu cynnwys a'u cefnogi
- Cymorth dwys i fagu hyder pobl ifanc er mwyn eu galluogi i feithrin mwy o sgiliau (yn enwedig y rheini o gefndiroedd difreintiedig)
- Darpariaeth benagored mewn amgylchedd dysgu gwahanol i helpu i feithrin sgiliau (yn enwedig i gyfranogwyr oed ysgol)

**Roedd y canlynol yn ddefnyddiol wrth helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau arwain amgylcheddol:**
I ddarllen gwerthusiad manylach ynghylch i ba raddau mae cyfranogwyr Our Bright Future yn teimlo y gallen nhw fod yn Arweinwyr Amgylcheddol, neu eu bod wedi cael eu cymell i wneud hynny, edrychwch ar yr astudiaeth ymchwil. https://www.ourbrightfuture.co.uk/about/our-impact

- Ffyrdd o weithio sy'n rhoi llais i bobl ifanc ac yn rhoi'r grym yn eu dwylo
- Rhwydweithio gyda gweithwyr proffesiynol yn y sector amgylcheddol a phobl ifanc o'r un anian
- Cael gwybodaeth am faterion amgylcheddol ochr yn ochr â sgiliau a phrofiadau
- Cymorth mentora
- Cyfleoedd i siarad yn gyhoeddus
- Cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a chael hyfforddiant
- Cael sgiliau a phrofiadau 'bywyd go iawn' drwy gydweithio i gynllunio a chyflwyno ymgyrchoedd neu brosiectau
- Cyfleoedd ymarferol i gyfrannu at brosesau gwneud penderfyniadau er mwyn gallu dylanwadu at newidiadau ystyrlon

Mae prosiectau Our Bright Future hefyd wedi mynd ati'n llwyddiannus i helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau amgylcheddol ymarferol a sgiliau personol, cymdeithasol, emosiynol a rhai seiliedig ar waith.

- Yn ôl tystiolaeth o'r rhaglen, mae sgiliau ymarferol yn cael eu datblygu orau drwy weithgareddau ymarferol yn yr awyr agored.
- Y dulliau gorau ar gyfer cefnogi sgiliau heb fod yn ymarferol, fel sgiliau rhyngbersonol a hyder, oedd: gweithgareddau grŵp, cymorth gan gyfoedion a chymell/mentora gan staff prosiect.

Roedd pobl ifanc agored i niwed yn benodol yn elwa o ryngweithio â phobl ifanc oedd yn wynebu'r un problemau â nhw.

Canfyddiad pwysig arall o'r rhaglen oedd bod angen datblygu hyder er mwyn datblygu sgiliau – ond bod datblygu sgiliau hefyd yn arwain at ddatblygu hyder. Mae'r hyder hwn wedyn yn gallu agor y drws at bob math o ganlyniadau – cyflogadwyedd, arwain yn y maes amgylcheddol a dyheadau gyrfa er enghraifft.

- Roedd cysylltiad agos rhwng ennill sgiliau, gwybodaeth a chymwysterau a chynnydd mewn hunanwerth, hyder a hunan-barch.
- Hyder yw'r canlyniad y sonnir amdano fwyaf, gyda'r rhan fwyaf o gyfranogwyr yn datblygu hyder i ryw raddau ar ôl cymryd rhan yn Our Bright Future.
- Gall yr enillion hyn fod yn arbennig o ystyrlon i bobl ifanc ddifreintiedig.

> **"Gan ein bod yn dewis y bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed, mae'r hwb hwnnw i'w hyder yn eu helpu mewn sawl agwedd ar fywyd. Nid dim ond yr hyder i ddilyn cwrs mewn cadwraeth, ond yr hyder i wneud rhywbeth arall. Gallant anelu i wneud mwy gyda'u bywydau. Mae hwb i hyder drwy'r prosiect yn rhoi sgiliau."**
>
> **RHEOLWR PROSIECT**

## Beth oedd yn gwneud gwahaniaeth o safbwynt helpu pobl ifanc i gael swydd a bod yn barod am waith



Mae Our Bright Future wedi darparu adnoddau a chyfleoedd hanfodol i alluogi pobl ifanc i ddatblygu eu cyflogadwyedd a chael gwaith.

Gwyddom am amrywiaeth o rwystrau sy'n gallu atal pobl ifanc rhag dilyn gyrfaoedd amgylcheddol, gan gynnwys cyflogau isel, prinder modelau rôl amrywiol, a llawer o gystadleuaeth am swyddi. (Am fwy o wybodaeth, darllenwch Bennod 6 o adolygiad ymchwil Our Bright Future, sy'n ymwneud â'r cymorth sydd ar gael i bobl ifanc weithio yn y sector amgylcheddol).

Mae cymhelliant ac uchelgais ar eu pen eu hunain yn bwysig, ond mae angen cyfleoedd ac adnoddau hefyd i alluogi pobl ifanc i gyflawni eu nod.

### Elfennau o'r hyn yr oedd prosiectau'n ei wneud i helpu pobl ifanc i gael swydd a bod yn barod am waith:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfleoedd strwythuredig ac achrededig yn gysylltiedig â´r rhwystrau sy'n atal pobl ifanc rhag mynd i'r sector amgylcheddol | Cyfleoedd wedi'u cefnogi i arwain ac ysgwyddo perchnogaeth dros weithgareddau prosiect / ymgyrchoedd / gweithredu cymdeithasol / prosiectau entrepreneuraidd | Mynediad at rwydweithiau proffesiynol, yn aml drwy ddigwyddiadau neu seminarau, a help i'w datblygu | Profiadau ymarferol a phroffesiynol a chyfleoedd i ryngweithio'n broffesiynol â'r rheini sydd mewn grym |
| Cymorth penodol ar gyfer gyrfaoedd a chyflogadwyedd (e.e. ymarfer ar gyfer cyfweliadau a help i ddod o hyd i swydd) | Profiadau a heriau newydd sy'n meithrin hyder ac y gellir eu defnyddio mewn ceisiadau am swyddi ac mewn cyfweliadau | Gwaith am dâl yn sefydliadau'r prosiectau ac y tu allan iddynt (yn enwedig ar gyfer pobl ifanc sydd dan bwysau i ddod ag incwm i'r cartref)) | Gweithgareddau sy'n ategu'r cwricwlwm ysgolion (yn enwedig ar gyfer pobl ifanc mewn darpariaeth addysgol amgen) |
| Cyfleoedd i rwydweithio â chyfoedion a chwrdd â phobl ifanc o'r un anian | Cymorth i gael hyder a thystiolaeth o sgiliau drwy gymwysterau ffurfiol | Cymorth mentora cyson (yn enwedig yn ystod pandemig Covid-19) | Cymorth parhaus ar ôl dechrau gweithio (yn enwedig i bobl ifanc gydag anghenion cymorth) |

> A'r canlyniad arall oedd pwysigrwydd y berthynas fentora, yn enwedig yn ystod y cyfnod clo. Roedd yn arbennig o bwysig iddyn nhw gael cyswllt cyson a rhywun i estyn allan atynt yn ystod y flwyddyn hon.
>
> RHEOLWR PROSIECT

> Rydyn ni'n cydnabod bod yr ystod oed hŷn – oed prifysgol – yn crefu am gyfleoedd, a dydyn nhw ddim yn eu cael. Fe wnaethon ni ddarparu hynny mewn hyfforddeiaethau. Yn aml iawn, o brofiad blaenorol, maen nhw'n credu mai llafur am ddim ydyn nhw.  Fe wnaethon ni wneud yn siŵr bod yr hyfforddeion yn cael profiad oedd o fudd iddyn nhw ac i'r ffordd roedden nhw am ddatblygu gyrfa.
>
> RHEOLWR PROSIECT

Mae prosiectau Our Bright Future wedi rhoi amrywiaeth o sgiliau a gwybodaeth i bobl ifanc, yn ogystal ag ymwybyddiaeth o'r amgylchedd. Mae'r sgiliau hyn yn aml wedi eu helpu i gymryd y cam nesaf mewn bywyd, boed hynny'n hyfforddiant, yn wirfoddoli neu'n gyflogaeth.



## Pwyntiau dysgu

- Fel un o brif themâu'r rhaglen drwyddi draw, mae gwella hunanhyder yn y lle cyntaf wedi bod yn ganolog i alluogi pobl ifanc i symud ymlaen tuag at ganlyniadau o ran sgiliau a chyflogadwyedd.
- Mae dull Our Bright Future o weithio, sy'n hyblyg ac yn bwrpasol, lle rhoddir cyfle i bobl ifanc arwain y ffordd, wedi eu helpu i gael pob math o sgiliau sydd wedi gwella'u cyflogadwyedd.
- Mae'r ffocws ar yr amgylchedd wedi cynorthwyo pobl ifanc i ystyried gwaith yn y sector amgylcheddol a chael gwaith hefyd. Mae'r un peth yn wir am gyfleoedd gweithredu cymdeithasol, yn ogystal â chymhwyso gwybodaeth amgylcheddol i swyddogaethau y tu allan i'r sector.

Mae'r canfyddiadau hyn yn arbennig o berthnasol wrth ystyried effeithiau diweddar pandemig COVID-19 ar bobl ifanc heddiw, ynghyd â'u rhagolygon ar gyfer addysg a gwaith.

Mae gweithgareddau fel y rhai a gynigir gan Our Bright Future yn gyfle gwerthfawr i fuddsoddi yn y dasg o fynd i'r afael â'r heriau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu.

> Rwy'n teimlo'n fwy hyderus wrth weithio gyda phobl eraill a rhoi cynnig ar bethau newydd. Roedd y cynllun yn help mawr i mi o ran fy hunan-barch, a dysgais lawer iawn o sgiliau newydd gwerthfawr. Mae bod yn yr awyr agored wedi gwneud i mi deimlo'n hapusach fy myd, ac erbyn hyn rydw i wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio strimiwr, fydd yn edrych yn dda ar fy CV.
>
> PARCMON DAN HYFFORDDIANT CYFRANOGWR YN UN O'R CYNLLUNIAU

> Mae gen i fwy o hyder ynof fi fy hun a dwi 'di dysgu pethau newydd, wedi gwneud ffrindiau newydd ac wedi cael llawer iawn o hwyl. Pe byddai rhywun yn rhoi cyfle i mi wneud y cyfan eto, byddwn yn gwneud hynny ar unwaith!
>
> CYFRANOGWR YN UN O'R PROSIECTAU